

Cyngor Bwrdeisdref Sirol

Blaenau Gwent



Strategaeth Sgiliau Ieithyddol Corfforaethol

2009 – 2012

CYNNWYS

	Rhif Tudalen
1. Cyflwyniad	3
2. Amcanion	5
3. Iaith a Chydraddoldeb	5
4. Delio gyda'r Cyhoedd	7
5. Hyfforddi a Datblygu	8
6. Recriwtio a Dethol	10
7. Grŵp Gwasanaethau Iaith	11
8. Archwiliad o Weithleoedd a Swyddi	12
9. Cynllun Gweithredu ac Amserlen	14
10. Atodiadau	17
i) Grŵp Gwasanaethau Iaith - Holiadur Staff	
ii) Archwiliad o Sgiliau Ieithyddol – Holiadur Staff	
iii) Rhestr o Sefydliadau sy'n Bartneriaid	

1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent wedi ymrwymo i ddarparu cydraddoldeb wrth gyflwyno gwasanaeth i bob preswlydd a chymuned o fewn ei ffiniau daearyddol. Un ffordd o sicrhau hyn yw darparu'r gwasanaethau hynny mewn ystod o ieithoedd heblaw'r Saesneg. Mae'r ymrwymiad hwn y cael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig ar ffurf gwahanol Ddeddfau Seneddol.

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor (yn ôl gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993) nid yn unig yn disgrifio'r ffordd y mae'r Cyngor yn bwriadu darparu ei wasanaethau i'r cyhoedd yn gyfartal yn Gymraeg a Saesneg, ond hefyd yn amlinellu bwriadau'r Cyngor ynglŷn â datblygu'r Gymraeg ar raddfa ehangach ledled y Fwrdeisdref Sirol.

Mae gan y Cyngor hefyd nifer o bolisiau a strategaethau sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol gyda'r Iaith Gymraeg. Ar wahân i'r Cynllun Iaith a'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer staff, mae nifer o ymrwymadau i'r Iaith Gymraeg yng Nghynllun Addysg Gymraeg y Gyfarwyddiaeth Addysg, y Datganiad Cydraddoldeb Corfforaethol, y Cynllun Sengl, a'r Cynllun Cymunedol.

Yn ychwanegol, mae strategaeth **Iaith Pawb** y Cynulliad Cenedlaethol yn amlinellu ei gweledigaeth ar gyfer datblygu Cymru wir ddwyieithog ac mae Strategaeth Sgiliau Cyfartal y Cyngor yn dangos ei ymroddiad i'r amcanion hyn.

Fel estyniad i'r broses o ddatblygu'r broses o ddatblygu'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol sydd wedi dod â gwahanol elfennau o adnoddau dynol at ei gilydd mewn mwy o fanylder. Mae hefyd wedi dwyn ynghyd y gwahanol agweddau o gydraddoldeb o ran dewis ieithoedd o fewn darparu gwasanaeth, gofal cwsmeriaid, datblygu staff a recriwtio a dethol staff gan greu un strategaeth a fydd yn mynd â'r Cyngor ymlaen mewn ffordd gadarnhaol a realistig wrth ystyried cefndir ieithyddol y Fwrdeisdref Sirol.

Cytunodd y Cyngor ar y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol hon ddydd Iau, 22 Ionawr 2009

Trosolwg Hanesyddol o'r Iaith Gymraeg

Gwelodd yr 20^{fed} Ganrif leihad dramatig yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Ne Ddwyrain Cymru gyda Chyfrifiad 1991 yn datgelu mai dim ond 2.3% neu 1,696 o'r boblogaeth 3 oed a throsodd ym Mlaenau Gwent oedd yn siarad Cymraeg, a nifer y disgyblion ysgol uwchradd yn mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw, Pont-y-pŵl oedd 16.

Dangosodd ffigyrau Cyfrifiad 2001 gynnydd enfawr, i 9.5% neu 6,421 o bobl oedd yn disgrifio'u hunain fel siaradwyr Cymraeg rhugl. (Mae'r ffigyrau hyn yn seiliedig ar y rhai 3 oed a throsodd). Roedd a wnelo hyn y bennaf â chyflwyno Deddf yr Iaith Gymraeg yn 1993 a sefydlu Ysgol Gymraeg Brynmawr, a agorodd yn 1993 ac sydd â 300 o ddisgyblion erbyn hyn.

Proffil Ieithyddol o Gyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

Dyma'r unig wybodaeth sydd ar gael oddi wrth Gyfrifiad 2001 ar iaith. Nid oes proffil ieithyddol cyfredol o staff ar gael, na chwaith unrhyw ffigyrau ar ieithoedd eraill a all fod yn cael eu siarad o fewn y Fwrdeisdref Sirol. (Cyfanswm poblogaeth 67,795 yn 2001).

<u>Canran a nifer poblogaeth sy'n:-</u>	<u>%</u>	<u>Nifer</u>
Deall Cymraeg llafar yn unig	2.2%	1,483
Siarad, ond nid yn darllen/ ysgrifennu Cymraeg	1.9%	1,291
Siarad a darllen, ond nid yn ysgrifennu Cymraeg	0.6%	403
Siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg - rhugl	9.5%	6,417
Cyfanswm gyda rhyw radd o wybodaeth o'r Gymraeg	14.2%	9,594

Gweithio mewn Partneriaeth

Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda sefydliadau sy'n bartneriaid, fel Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy (y fenter iaith leol sydd newydd ei sefydlu ac yn cael cefnogaeth y Cyngor), Coleg Gwent a Grŵp Deddf (rhwydwaith ranbarthol De Ddwyrain Cymru) er mwyn sicrhau fod y targedau yn y Cynllun Iaith, ac yn bwysicach, anghenion ei phoblogaeth sy'n siarad Cymraeg, yn cael eu bodloni.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydweithio'n agos gyda Chyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd ac yn chwarae rhan allweddol yn y Fforwm Amrywiaeth Aml-Asiantaeth sy'n edrych ar faterion Aflonyddu Hiliol ac yn helpu i benderfynu beth yw anghenion a phroblemau pobl sy'n siarad ieithoedd eraill.

Mae'r Cyngor a sefydliadau sy'n bartneriaid megis Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID), Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru (DAW) a Chymdeithas Pobl Fyddar Prydain (BDA) yn gweithio ar ddatblygu sgiliau iaith Arwyddion Prydain (BSL) er mwyn darparu gwasanaethau a diwallu anghenion defnyddwyr BSL sy'n byw yn y Fwrdeisdref Sirol.

AMCANION

Trwy weithredu'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol, bydd y Cyngor yn:-

- (i) Sicrhau fod preswylwyr y Fwrdeisdref Sirol yn cael y gwasanaethau y maent eu hangen yn eu hiaith eu hunain. (gweler Adran 3);
- (ii) Sicrhau fod cwsmeriaid y Cyngor yn cael eu trin yn gyfartal beth bynnag yw eu hanghenion ieithyddol a sut bynnag y maent yn cysylltu â'r Cyngor (gweler Adran 4);
- (iii) Sicrhau fod staff y Cyngor yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol i'w galluogi i ddelio'n effeithiol gyda chwsmeriaid, beth bynnag fo eu hanghenion ieithyddol (gweler Adran 4);
- (iv) Sicrhau fod arferion Recriwtio a Dethol o fewn y Cyngor yn adlewyrchu'r angen i ddarparu'r uchod (gweler Adran 6);
- (v) Sicrhau fod monitro mewnol yn cael ei gynnal er mwyn darparu gwybodaeth ystadegol ystyrion a fydd yn galluogi'r Cyngor i ddynodi meysydd arferion da a meysydd ble y gall fod angen datblygu pellach (gweler Adranau 8 a 9).

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn ynghyd â'r amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu i'w gweld yn Adran 9.

3. IAITH A CHYDRADDOLDEB

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent ddyletswydd gyfreithiol a moesol i ddarparu pob gwasanaeth yn deg a heb wahaniaethu ar gyfer pob un o'r preswylwyr a phawb sy'n gweithio yma neu'n ymweld â'r Fwrdeistref Sirol.

Daeth iaith yn rhan o'r agenda Cydraddoldeb ehangach, gan ei fod yn cael ei gydnabod bellach, yn achos iaith gyntaf person, na ddylai neb gael eu rhoi mewn sefyllfa ble maent dan anfantais trwy beidio gallu defnyddio'u hiaith gyntaf i esbonio neu amddiffyn eu hunain.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Anabledd y Cyngor (yn unol â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Diwygio) 2005) yn gosod ymrwymiad ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng BSL, a gafodd ei chydabod fel iaith leiafrifol swyddogol ar 18 Mawrth 2003 gan Lywodraeth y DU.

Mae'r Cynllun hefyd yn ei gwneud hi'n amlwg fod gan bawb sy'n gwneud cais am ddogfennau, nid yn unig mewn ieithoedd llafar eraill ond hefyd mewn fformatau eraill fel clywedol, disg, Braille neu brint bras, yr hawl i dderbyn y wybodaeth yn y fformat o'u dewis.

Mae dewis iaith, yn enwedig yn achos plant, yn cael ei gynnwys mewn gwahanol gonfensiynau Hawliau Dynol. Mae'n ymrwymiad pendant ar bob awdurdod cyhoeddus i sicrhau fod parchu Hawliau Dynol wrth graidd eu gwaith o ddydd i

ddydd. Mae hyn yn golygu gweithredu mewn ffyrdd sy'n cadarnhau yn bendant egwyddorion Deddf Hawliau Dynol 1998.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i awdurdod cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws gyda Hawl Confensiwn. Mae hyn yn cynnwys pob agwedd o weithgareddau'r awdurdod cyhoeddus - yn eu gwaith o ddydd i ddydd mae gan staff ran hollbwysig i'w chwarae, nid yn unig wrth sicrhau eu bod bob amser yn gweithredu yn unol â hawliau'r confensiwn, ond hefyd trwy gefnogi agwedd gadarnhaol tuag at faterion hawliau dynol ledled y gymuned.

Y Gymraeg

Mae'r ddyletswydd ynghylch y Gymraeg yn codi'n bennaf yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1993; o dan honno mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Iaith Gymraeg a llyfryn canllawiau Staff sydd wedi eu dosbarthu i bob maes gwasanaeth. Yn y Cynllun, mae'r Cyngor yn gwneud yr ymrwymiad canlynol:-

“Byddwn yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb”.

Nid oes gan y Cyngor ei hun ddewis o dan y ddeddfwriaeth, ond yr hyn y mae'n rhaid iddo ei wneud yw sicrhau fod gan y cyhoedd ddewis cyfartal rhwng y Saesneg a'r Gymraeg a chaniatáu i breswylwyr ac ymwelwyr â'r Fwrdeisdref Sirol ddewis drostynt eu hunain.

Mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent wedi dangos ei fod yn cydnabod dewis yr unigolyn mewn materion iaith.

Ieithoedd eraill a siaredir

Mae'r ddyletswydd ynghylch ieithoedd eraill a siaredir yn codi yn sgil Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, a grybwyllir yng Nghynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cyngor, sy'n gwneud yn eglur y gall unrhyw un wneud cais am wybodaeth neu wasanaeth yn unrhyw iaith arall.

Mae anghenion unrhyw un sy'n siarad ieithoedd eraill yn debyg i anghenion siaradwyr Cymraeg i raddau helaeth, ond gyda'r ystyriaethau ychwanegol yn yr achosion hynny nad yw llawer o bobl o leiafrifoedd ethnig yn gallu siarad Saesneg o gwbl, ac yn sicr nid ar y lefel ble maent yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Saesneg yn ddigon da i lenwi ffurflen Budd-dal Cyngor er enghraifft.

Iaith Arwyddion Prydain

Ni ellir cymryd yn ganiataol y gall cwsmeriaid Byddar gyfathrebu yn Saesneg; felly, yn wahanol i sefyllfa siaradwyr Cymraeg, fe all mai iaith Arwyddion Prydain, neu BSL, yw unig iaith pobl Fyddar. Trwy'r system addysg, efallai na fydd defnyddwyr Byddar BSL wedi dysgu siarad na darllen gwefusau yn y Saesneg fel cyfrwng cyfathrebu.

Ni ellir cymryd yn ganiataol chwaith fod pob cwsmer byddar yn defnyddio iaith Arwyddion Prydain i gyfathrebu. Mae yna wahaniaeth rhwng byddar “b” a Byddar

“B”. Bydd pobl “byddar” fel arfer wedi datblygu colli clyw neu fynd yn drwm eu clyw. Mae pobl “Byddar” yn uniaethu’n gryf gyda’r gymuned a diwylliant Byddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel eu prif gyfrwng cyfathrebu.

Mae ymchwil wedi dangos mai dim ond 33% yw cywirdeb darllen gwefusau, sy’n golygu fod posibilrwydd i bron 70% o’r wybodaeth gael ei golli os mai trefniadau ar gyfer darllen gwefusau yw’r unig addasiad sy’n cael ei wneud wrth ddarparu gwasanaeth.

Gall llawer o oedolion Byddar sy’n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ddarllen ac ysgrifennu ar lefel sy’n cyfateb i 8½ mlwydd oed ac felly gallant fod mewn sefyllfa gyffelyb i’r cwsmeriaid lleiafrifoedd ethnig hynny na allant siarad Saesneg.

Mae’r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Diwygio) 2005 yn gosod ymrwymiad ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng BSL, felly rhaid i’r Cyngor barhau i weithio tuag at ddarparu, er enghraifft, gwybodaeth gyhoeddus yn fformat fideo gyda BSL neu fideos gydag arwyddwyr i’w gweld ar y sgrin ynghyd ag is-deitlau.

4. DELIO GYDA’R CYHOEDD

Mae gan y Cyngor Canolfan Gyswllt sefydledig mewn bodolaeth – C2BG. Mae ganddynt swyddog Cymraeg penodol, ac mae Typetalk a system Mini-com yn eu lle ar gyfer y Gymuned Fyddar. Bydd sefydlu’r strategaeth sgiliau yn mynd ati i asesu nifer y staff Canolfan Gyswllt dwyieithog y bydd eu hangen i ddelio gyda gofynion y cyhoedd.

Mae yna gynlluniau hefyd i ymgynghori gyda’r Gymuned Fyddar leol ar eu hoff ddulliau cyfathrebu.

Un maes ble y gall y Cyngor gynnig dewis ieithoedd yn syth yw pan fydd aelod o’r staff yn ateb y ffôn. Yn y gorffennol mae hyn wedi bod yn anodd ei ddatblygu gan nad oedd dull corfforaethol o ateb y ffôn gan fod hynny’n amrywio o berson i berson yn ogystal â rhwng meysydd gwasanaeth. Mae’r Cynllun Iaith Gymraeg presennol a’r canllawiau yn annog staff i ateb yn ddwyieithog ac mae staff y prif switsfwrdd i gyd yn gwneud hynny, ond mae Safon Gwasanaeth Cyfathrebu sydd newydd ei sefydlu wedi datgan fod pob swyddog yn ateb y ffôn yn ddwyieithog, gan ddangos trwy hynny ymrwymiad yr Awdurdod i’r Iaith Gymraeg.

Os bydd galwad yn cael ei derbyn yn Gymraeg, mae staff yn ymwybodol o’r angen i drosglwyddo galwadau o’r fath i un o’r 41 o swyddogion sy’n siarad Cymraeg o fewn yr Awdurdod. Mae’r aelodau hyn o’r staff wedi cytuno i ddelio gyda galwadau yn Gymraeg ar gyfer eu hadran eu hunain ac adrannau eraill.

Os bydd galwad yn unrhyw iaith arall yn cael ei derbyn, yna bydd Llinell Iaith yn cael ei defnyddio gan ei gwneud hi’n bosibl delio gyda’r galwr yn eu dewis iaith. Mae gwybodaeth eisoes wedi ei drosglwyddo i swyddogion perthnasol ond rhaid i hyn fod ar gael hefyd i holl staff y Cyngor.

Dylai'r gwasanaeth hwn gael ei drefnu mewn ffordd debyg ar gyfer cwsmeriaid Byddar: os bydd y Cyngor yn derbyn ffacs neu neges destun dylai hynny symbylu anfon y neges ymlaen at aelod o'r staff sydd â lefel addas o Iaith Arwyddion Prydain (NVQ Lefel 4), neu staff a fydd yn cyrchu dehonglwyr BSL neu ffôn fideo, technoleg Minicom a Tynetalk, ac a fydd yn gallu ymateb yn gyflym.

Os bydd ymwelydd ag unrhyw ardal derbynfa yn dymuno siarad mewn iaith heblaw y Saesneg, mae yna dri dewis ar gyfer darparu'r gwasanaeth, gan ddibynnu ar eu gofynion:-

- (i) **Cymraeg** - mae gan staff derbynfa restr o **41** o siaradwyr Cymraeg y gallant gysylltu â hwy.
- (ii) **Ieithoedd Llafar Eraill** - dylai staff derbynfa ddefnyddio Arwydd iaith fel y gall aelod o'r cyhoedd gael y cyfle i'w hysbysu ym mha iaith y maent yn dymuno siarad. Wedyn bydd modd cysylltu naill ai gydag aelod addas o'r staff neu'r Llinell Iaith.
- (iii) **Iaith Arwyddion Prydain** - Mae gan yr Awdurdod ddwsin o aelodau staff sydd â chymwysterau BSL er mai dim ond sgiliau sylfaenol sydd ganddynt, na fyddai'n addas ar gyfer delio gyda materion mwy cymhleth. Mae yna wasanaeth BSL ar-lein sy'n defnyddio technoleg ffôn fideo i alluogi cyfieithu mewn ffordd debyg i'r Llinell Iaith. Mae modd cael gafael ar ddehonglwyr cymwys trwy Lyfryn Adnoddau Anabledd yr Awdurdod sydd i'w gael ar y Rhyngwyd a'r Fewnwyd.

Wrth gynllunio unrhyw gyfarfod cyhoeddus, rhaid i aelodau staff hysbysu'r cyhoedd y gallant wneud cais am gael siarad yn Gymraeg neu unrhyw iaith arall neu gael gwasanaethau dehonglwr iaith Arwyddion Prydain. Er mwyn gwneud hynny, fodd bynnag, rhaid iddynt adael i'r trefnwyr wybod ymlaen llaw fel y gellir gwneud pob ymdrech i sicrhau fod eu gofynion hanghenion yn cael eu bodloni.

Trwy'r Prosiect Dyfodol BSL fe gyflogwyd dehonglydd BSL dan hyfforddiant am chwe mis ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol a bu hynny'n help i'r Gymuned Fyddar ddod yn fwy hyderus wrth ddelio gyda'r Awdurdod. Maent yn awr yn mynychu pob Fforwm a darparwn gyfieithwyr BSL i hwyluso hynny. Yn wir mae'r cynrychiolwyr hyn bellach yn cymryd mwy o ran mewn cyssylltu gyda'r Awdurdod.

Y cam nesaf yn y berthynas hon yw bod yr Awdurdod mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent wedi sefydlu Fforwm y Byddar i ddelio gydag anghenion a gofynion y gymuned Fyddar.

5 HYFFORDDI A DATBLYGU

Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn annog pawb o'i weithlu ac aelodau i ddysgu Cymraeg trwy gynnig pecyn hyblyg o ddosbarthiadau yn y bore, amser cinio, prynhawn a gyda'r nos, sy'n galluogi rheolwyr a staff i ddewis y trefniant gorau ar gyfer eu maes gwasanaeth arbennig. Mae'n cynnig Hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle i bob aelod staff ac aelod etholedig. Datblygwyd y rhaglen hyfforddi yn

wreiddiol gan y Cynghorydd Iaith Gymraeg mewn ymgynghoriad gyda Choleg Gwent.

Hyfforddiant arall sy'n cael ei gynnig yw cyfres o gyrsiau deuddydd yn cael eu rhedeg gan Goleg Gwent ar ran Grŵp Deddf (grŵp rhanbarthol o swyddogion yn Ne Cymru sy'n delio gyda'r Iaith Gymraeg). Nod y cyrsiau deuddydd hyn yw darparu sgiliau iaith sylfaenol ac maent yn agored i gynghorau o bob rhan o'r rhanbarth ac nid i un awdurdod yn unig (mae hyn yn helpu i wneud i staff ddeall nad Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent yn unig sy'n gweithredu cynllun iaith, ac yn creu cysylltiadau a rhwydweithiau rhwng gwahanol sefydliadau).

Mae'r ddarpariaeth hyfforddiant yn cael ei hadolygu'n gyson a blaenoriaethau'n cael eu hail asesu pan fo angen. Mae effeithiolrwydd Rhaglen Hyfforddi Cymraeg yn y Gweithle yn cael ei fonitro, ynghyd â chynnydd y rhai sy'n dysgu'r iaith. Mae'n cael ei gydnabod y bydd pa mor gyflym y gall swyddogion ac aelodau ddysgu Cymraeg yn effeithio'n uniongyrchol ar y targedau sy'n cael eu gosod ar gyfer gweithredu mesurau penodol o fewn y cynllun. Mae'n cael ei dderbyn hefyd fod sgiliau ieithyddol yn amrywio rhwng y naill Swyddog a'r llall ac y gall rhai gymryd mwy o amser nag eraill i ddysgu'r iaith.

Yr ymdrech a'r ymroddiad sy'n cael ei ddangos gan staff fydd yr elfennau pwysicaf. Bydd angen peth amynedd a hyblygrwydd ar ran pawb ac mae cefnogaeth y Rheolwyr Llinell yn gwbl hanfodol os yw nifer y staff sy'n siarad Cymraeg i gynyddu. Mae'n cael ei gydnabod hefyd y gall swyddogion dwyieithog presennol wneud cyfraniad gwerthfawr trwy helpu ac annog dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd gwaith ac mae hyn yn fater y mae'r Swyddog Cydraddoldeb a'r Cyfieithydd yn ei ystyried. (Sefydlwyd Clwb Clonc er mwyn cefnogi Dysgwyr Cymraeg a'r rhai hynny sydd wedi colli hyder yn eu sgiliau iaith).

Mae sesiwn ar ymwybyddiaeth iaith yn ystod y sesiwn sefydlu staff yn eu hysbysu o bolisi'r Cyngor, pam ei fod yn bodoli, pa hyfforddiant a help adnoddau sydd ar gael ayyb, o'r funud yr ymunant â'r Awdurdod.

BSL/Signalong/Makaton

Fel gyda dosbarthiadau sgwrsio Cymraeg, mae dosbarthiadau iaith Arwyddion Prydain wedi bod yn cael eu cynnal gan y Cyngor er 1987 ac ar gael i'r staff fel rhan o'r rhaglen hyfforddi datblygiad Staff.

Mae gan staff o fewn Anabledd Dysgu hefyd fynediad i ddosbarthiadau iaith arwyddo MAKATON a SIGNALONG, sy'n cael eu cydlynu trwy Gyd-drefniadau Hyfforddi gydag Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol eraill yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cefnogi 28 o aelodau staff a fu'n dilyn hyfforddiant Makaton yn benodol fel cyfrwng i gyfathrebu gyda phobl gydag anabledd dysgu.

Yn ddelfrydol dylai dehongli BSL gael ei ddarparu hyd at Lefel 4 NVQ neu safon gyfatebol fel isafbwynt, a chefnogaeth Cyfathrebu gydag isafbwynt Lefel 3. Nid yw'n ddigonol defnyddio staff sy'n dysgu BSL i lefelau 1 a 2 er, yn amlwg, bydd unrhyw

allu BSL yn welliant ar y sefyllfa gofal cwsmeriaid bresennol, ac mae hynny eisoes yn digwydd.

Fel rhan o'r cynllun gweithredu byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o gael dehonglwyr BSL sydd wedi eu hyfforddi yn gweithio mewn adrannau heblaw Gwasanaethau Cymdeithasol – yn aml fe gymerir yn ganiataol fod materion Byddar yn ymwneud ag Anabledd a'r angen am Wasanaethau Cymdeithasol yn unig. Mae'r Gymuned Fyddar yn cael eu hannog i weithredu'n fwy annibynnol a thrwy hynny'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod fod yn fwy trefnus o ran darparu dehonglwyr BSL i ddelio gydag unrhyw un o'u materion.

6. RECRIWTIO A DETHOL

Yr Iaith Gymraeg

Tra bod y Cynllun Iaith Gymraeg yn cwmpasu'r dull o hysbysebu'n ddwyieithog (adran 4.8 y cynllun), mae'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol hon yn cael ei hanelu at y sail resymegol wrth wraidd yr hysbysebu.

Hyd yma, nid yw'r Cyngor wedi hysbysebu am siaradwyr Cymraeg rhugl, heblaw ar gyfer rhai swyddi penodol fel staff mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu swydd Seicolegydd Addysgol, er enghraifft. Mae hysbysebu o'r fath yn fater sensitif a bydd y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol hon yn ceisio amlinellu ffordd o symud ymlaen a fydd yn caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei ymrwymadau gan osgoi ar yr un pryd wahaniaethu cadarnhaol a heb rwystro aelodau staff presennol rhag ymgeisio am swyddi y gallent fel arall gael eu dewis ar eu cyfer.

Bydd yr Awdurdod yn archwilio anghenion gwasanaethau ac yn dynodi meysydd i'w blaenoriaethu wrth recriwtio staff er mwyn cwrdd â gofynion y cynllun. Wrth wneud hynny, fe fyddant yn ystyried y sefyllfa ble mae recriwtio staff dwyieithog yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaeth cyn llawned ag sy'n bosibl. Ble mae gallu ieithyddol yn cael ei ystyried yn hanfodol neu'n ddymunol, bydd angen nodi hynny mewn hysbysebion swyddi.

Mewn amgylchiadau ble ceir anhawster penodi staff dwyieithog addas ar gyfer swyddi ble'r ystyrir fod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, y drefn fydd naill ai:

- gwneud penodiad sy'n cynnwys ymrwymiad **dan gontract** i ddysgu Cymraeg i safon benodedig ac o fewn amser penodol gyda chefnogaeth y Cyngor, neu
- ail drefnu'r gwasanaeth neu ddynodi trefniadau eraill ar gyfer darparu'r sgil yn y gweithle trwy e.e. ddefnyddio sgiliau ieithyddol aelod presennol o'r staff yn y maes gwasanaeth arbennig hwnnw.

Yn achos ymgeiswyr ar gyfer swyddi lle nad yw sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn ddymunol, a bod sefyllfa'n codi lle mae dau ymgeisydd yn gyfartal o ran cymwysterau ffurfiol, profiad ac yn y blaen, bydd lefel gallu mewn sgiliau dwyieithog yn cael ei ystyried yn sgil ychwanegol.

Er mwyn bodloni egwyddor cydraddoldeb ynghyd â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg, y ogystal â lleddfu unrhyw ynghyd a thawelu ofnau a all fodoli ymysg rhai grwpiau ynghylch rhoi strategaeth o'r fath ar waith, yr hyn y mae'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol hon yn ei awgrymu mewn egwyddor yw hyn: yn ychwanegol at y camau a grybwyllwyd yn y Cynllun Iaith Gymraeg, mae'r diffiniadau o "Cymraeg yn hanfodol" neu "Cymraeg yn ddymunol" yn cael eu hehangu er mwyn rhoi manylion am lefel y gallu y mae ei angen, trwy ddatgan mewn hysbyseb swydd fod y Gymraeg yn hanfodol **i'r lefel sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd unigol honno.**

Mae hyn yn caniatáu i lawer o'r staff presennol sy'n ddysgwyr ddefnyddio'r sgiliau iaith y maent wedi eu hennill er mwyn hybu eu gyrfaedd (yn ymarferol, er enghraifft, ni fyddai angen i groesawydd fod mor rhugl yn y Gymraeg â Gweithiwr Cymdeithasol). Felly mae dysgwyr o fewn y Cyngor yn cael y cyfle i symud ymlaen ac mae'r Cyngor nid yn unig yn cwrdd ag anghenion y Cynllun Iaith ond hefyd yn elwa ar y buddsoddiad a wnaed o ran datblygu staff. Byddai symudiad felly yn arwydd o ymrwymiad y Cyngor i'r iaith Gymraeg.

Ieithoedd eraill a siaredir

Yn y dyfodol fe all y bydd angen i ni ystyried penodi staff sydd â sgiliau ieithoedd cymunedol e.e. Pwyleg, Tsieinëeg ac yn y blaen. Ni ellir ystyried hyn nes y bydd arolwg o broffil ieithyddol y Fwrdeistref Sirol gael ei gwblhau.

7. Y GRŴP GWASANASETHAU IAITH

Y Gymraeg

Sefydlwyd Grŵp Siaradwyr Cymraeg rai blynyddoedd yn ôl, a hwnnw'n cynnwys swyddogion dwyieithog sy'n fodlon gweithredu fel cefnogwyr sy'n helpu ar faterion Cymraeg i bob Cyfarwyddiaeth. Hyd yn hyn mae'r Grŵp wedi gweithredu mewn ffordd anffurfiol iawn ond mae angen i hyn gael ei adolygu fel y bo'r angen ar gyfer gweithredu'r Cynllun.

Mae swyddogaeth y Grŵp Siaradwyr Cymraeg yn un amrywiol - mae ystod y gwasanaethau y mae eu hangen gan Swyddogion dwyieithog yn eang e.e.

- ◆ efallai y bydd gofyn iddynt gyfieithu ac ymateb i ohebiaeth Gymraeg;
- ◆ ymateb i ymholiadau ffôn;
- ◆ cynnal sgysiau wyneb yn wyneb;
- ◆ mynychu gwahanol fathau o gyfarfodydd;
- ◆ rhoi cyfweiliadau ar y cyfryngau;
- ◆ gweithredu fel mentoriaid yn gysylltiedig â Rhaglen Hyfforddi Cymraeg ar gyfer y Gweithle;
- ◆ teithio o un lleoliad i'r llall (gan ddibynnu pa fath o ymholiad sydd wedi codi)

ac ar yr un pryd gwneud eu baich gwaith arferol o ddydd i ddydd.

Hyd yn hyn, mae'r Tîm wedi bod yn gweithredu'n gwbl wirfoddol; nid yw'n fwriad gan y Strategaeth i orfodi unrhyw siaradwr Cymraeg i dderbyn gwaith nad ydynt yn fodlon neu'n abl i ymgymryd ag ef.

Ieithoedd eraill a siaredir ac Iaith Arwyddion Prydain

Mae modd ymestyn egwyddor sefydlu'r fath grŵp i ieithoedd eraill a siaredir ac i iaith Arwyddion Prydain, ac unwaith eto byddai hyn yn cael ei seilio ar barodrwydd a gallu staff a chymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.

Mae'n briodol felly ystyried ffurfio Grŵp Iaith ledled yr Awdurdod, ar yr un llinellau â'r Grŵp Siaradwyr Cymraeg a ddisgrifiwyd uchod, i fynd i'r afael â nifer o faterion cyflwyno gwasanaethau sy'n dod o dan y gwahanol gynlluniau Cydraddoldeb sydd eisoes yn eu lle.

Er mwyn ffurfioli'r Grŵp, y bwriad yw cyflwyno cynllun lle bydd y rhai sy'n siarad Cymraeg neu ieithoedd eraill a siaredir neu sy'n gallu defnyddio iaith Arwyddion Prydain ac sy'n derbyn dyletswyddau Grŵp Iaith yn ychwanegol at eu gwaith arferol yn derbyn lwfans bob mis, fel ei bod hi'n amlwg iddynt hwy ac i'w cydweithwyr nad ydynt yn eu talu ddim ond am siarad a defnyddio ieithoedd eraill.

Bydd trefn felly'n sicrhau fod hyn yn cael ei weld fel sgil a/ neu ofyniad ychwanegol, yn debyg iawn i'r ffordd y mae defnyddwyr Cymorth Cyntaf yn cael eu cydnabod ar hyn o bryd.

Mae hyn yn rhoi rhyddid i'r rhai nad ydynt yn dymuno defnyddio'u sgiliau iaith ddewis peidio ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol at eu gwaith o ddydd i ddydd. Bydd aelodau Grŵp hefyd yn cael gwaith sy'n perthyn i'w maes gwasanaeth yn unig, yn hytrach na gwaith o Gyfarwyddiaethau eraill. (er y gall na fydd hyn yn bosibl ar y dechrau, o dderbyn nifer isel y siaradwyr Cymraeg mewn rhai Cyfarwyddiaethau).

Byddai Penaethiaid Gwasanaeth hefyd yn gorfod rhoi caniatâd i'w staff fod yn y Grŵp gan fod hyn yn golygu dyletswyddau ychwanegol y tu allan i'w swyddogaethau arferol.

Ni fyddai unrhyw un a benodwyd i swydd ble dynodwyd sgil iaith yn y disgrifiad swydd, ac na fyddai'n ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol, yn gymwys i dderbyn honorariwm.

Byddai rhaid i safonau ansawdd gael eu cynnal a byddai hynny'n cael ei gysylltu gyda'r math o waith a ddisgwyliid gan yr Aelod Grŵp unigol. Gellir cynnal y safonau hyn wrth i'r Grŵp Gwasanaethau Iaith ddatblygu, gan ddefnyddio arweiniad gan y Cyngor a chan sefydliadau sy'n bartneriaid. Byddai aelodau'r Grŵp angen cyrsiau gloywi rheolaidd er mwyn cynnal eu lefel sgiliau.

Bydd staff sy'n derbyn cyfrifoldeb BSL trwy gefnogi cyfathrebu/ dehongli angen cefnogaeth a hyfforddiant rheolaidd a bydd gofyn iddynt fod wedi cwblhau NVQ Lefel 4 er mwyn gallu delio'n fedrus gyda'r Gymuned Fyddar neu Lefel 3 er mwyn darparu cefnogaeth cyfathrebu.

8 ARCHWILIAD O WEITHLEOEDD A SWYDDI

Mae angen cynnal dau ddarn pwysig iawn o waith:

- (i) Archwiliad cynhwysfawr o ystod a lefel sgiliau iaith o fewn staff y Cyngor.
- (ii) Pob Is-adran i edrych ar eu strwythurau staffio a phenderfynu ym mhle y bydd angen staff sy'n siarad Cymraeg i ddelio gyda'r cyhoedd (Cymraeg yn hanfodol/dymunol), BSL ac ieithoedd eraill.

Bydd y ddau ddarn hyn o waith yn darparu sylfaen ar gyfer gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol.

Bydd yn darparu corff o ofynion wedi eu hasesu'n wrthrychol ar gyfer y sgiliau ieithyddol sy'n angenrheidiol i gyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd yn newis iaith defnyddwyr y gwasanaeth. O'r sail hon gall yr Awdurdod wedyn symud ymlaen i gymharu'r sgiliau y mae eu hangen gyda'r sgiliau sy'n bodoli eisoes o fewn y gweithlu, a thrwy hynny ddarganfod unrhyw ddiffygion mewn sgiliau.

Bydd angen i'r wybodaeth hon gael ei monitro, nid yn unig o ran rhai sy'n cychwyn a'r staff presennol fel ymarferiad cychwynnol, ond ar sail reolaidd er mwyn gwneud yn siŵr fod lleoliad y staff hynny o fewn y Cyngor yn cael ei ddiweddarau ac i fonitro'r rhai sy'n gadael er mwyn sicrhau fod cywirdeb y wybodaeth yn cael ei gynnal dros gyfnod hir.

9 CYNLLUN GWEITHREDU AC AMSERLEN

Bydd y Cynllun Gweithredu Sgiliau leithyddol yn cael ei ddatblygu yn unol â'r Strategaeth Sgiliau leithyddol, Cynllun yr Iaith Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Corfforaethol.

Bydd yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Cynllun Gweithredu Sgiliau leithyddol yn cael ei weithredu yn unol ag unrhyw ddiwygiadau i'r Strategaeth ddrafft hon yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Amcan	Gweithredu		Canlyniad	Amserlen	Swyddog/ion cyfrifol
Sicrhau fod y Strategaeth yn addas ac yn gyraeddadwy	Ymgynghori gyda phartneriaid mewnol ac allanol ynglŷn â fersiwn drafft o'r Strategaeth Sgiliau leithyddol		Gwneud newidiadau fel yr awgrymwyd a drafft wedi ei anfon ar gyfer ei fabwysiadu'n ffurfiol	Tach/Rhag 2008	Swyddog Cydraddoldeb
Mabwysiadu'r Strategaeth ar sail ffurfiol	CMT/Swyddog Gweithredol/Cyngor i gymeradwyo Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau leithyddol		Pecyn cymorth yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol	Ion 2009	Swyddog Cydraddoldeb/Pennaeth Adnoddau Dynol
Canfod pa sgiliau iaith sy'n bresennol yn yr Awdurdod	Cynnal Archwiliad Iaith Staff		Darlun manwl o sgiliau iaith ymysg staff	Ebrill 2009	Swyddog Cydraddoldeb/ A Parker
Sefydlu pa Swyddi a ddylai gael eu dynodi'n rhai ble mae'r Gymraeg yn Hanfodol neu'n ddymunol o fewn Cyfarwyddiaethau	Astudio strwythurau staffio presennol ac ystyried lefelau a math o gyswllt gyda'r cyhoedd a allai godi		Ystod o swyddi ar draws pob cyfarwyddiaeth yn cael eu dynodi'n rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol	Ebrill 2009	DMT's

Amcan	Gweithredu	Canlyniad	Amserlen	Swyddog/ion Cyfrifol
Cofnod diweddaraf ar gael o sgiliau iaith staff	Datblygu system o gofnodi sgiliau iaith personol	Cronfa ddata y gellir ei diweddarau'n hawdd wedi ei sefydlu	Ebrill 2009	Adnoddau Dynol
Sicrhau fod yr Awdurdod yn gallu delio gydag ymholiadau mewn amrywiaeth eang o ieithoedd	Sefydlu Grŵp Gwasanaethau Iaith	Rhestr o staff sydd ar gael ar y Fewnrwyd i ddelio gydag ymholiadau mewn amrywiaeth o ieithoedd	Chwefror 2009	Adnoddau Dynol/ Swyddog Cydraddoldeb
Sicrhau fod y staff i gyd yn ymwybodol o'r ddarpariaeth Grŵp Gwasanaethau Iaith (h.y. taflen/mewnrwyd/sesiwn ymwybyddiaeth)	Dosbarthu rhestr o fanylion y Grŵp Gwasanaethau Iaith i bob Cyfarwyddiaeth	Gellir delio gyda'r cyhoedd yn eu dewis iaith heb fawr o ffwdan	Mawrth 2009	Swyddog Cydraddoldeb
Sefydlu beth yw anghenion ieithoedd lleiafrifol ymhlith poblogaeth Blaenau Gwent	Gweithio gyda VALREC i ddatblygu a monitro cronfa ddata o grwpiau lleiafrifol a'u hanghenion iaith o fewn y Fwrdeistref Sirol	Cronfa ddata y gellir ei diweddarau'n hawdd wedi ei sefydlu	cyfredol	Swyddog Cydraddoldeb/ Adnoddau Dynol
Dynodi rhestr o ddarparwyr iaith allanol a ffefrir	Tendr ar gyfer darparwr cyfieithu ieithyddol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol	Rhestr o ddarparwyr ar gael i ddarparu datrysiadau iaith sydyn	Gorffennaf 2009	Adran Caffael

Amcan	Gweithredu	Canlyniad	Amserlen	Swyddog/ion Cyfrifol
Sicrhau fod staff rheng flaen yn cael eu hyfforddi ar gyfer delio gyda chwsmeriaid sydd â gwahanol anghenion iaith	Cynnwys anghenion iaith yn y rhaglen hyfforddi sylfaenol ar gyfer gofal cwsmeriaid	Gellir delio gyda phobl yn eu dewis iaith heb fawr o ffwdan	cyfredol	Rhaglenni hyfforddi ardaloedd Gwasanaeth
Sefydlu beth yw'r galw neu'r angen am ddarparu gwasanaethau iaith Arwyddion Prydain o fewn y Fwrdeistref Sirol	Monitro'r defnydd ledled yr Awdurdod o wasanaeth cyfieithwyr BSL ar gyfer pobl Fyddar	Gallu darparu darlun cyffredinol o gost cyflenwi gwasanaethau BSL yn y Fwrdeistref Sirol	Rhagfyr 2009	Swyddog Cydraddoldeb/ Ardaloedd Gwasanaeth

10 **ATODIADAU**

Rhestr o atodiadau:-

- i) Grŵp Gwasanaethau Ieithyddol - Ffurflen Cytundeb
- ii) Holiadur Sgiliau Ieithyddol Staff
- iii) Rhestr o Sefydliadau sy'n Bartneriaid

Atodiad (i) Ffurflen Cytundeb Grŵp Gwasanaethau Iaith Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent
 Enw.....

Teitl swydd.....

Adran..... Cyfarwyddiaeth.....

Rhif ffôn.....Rhif ffacs.....

Yr iaith yr ydych yn ei siarad/arwyddo

O'r rhestr sy'n dilyn, a fydddech chi'n fodlon:		Byddwn	Na fyddwn
1	I'ch enw ymddangos yng Nghyfeiriadur Grŵp Gwasanaethau Iaith y Cyngor		
2	Gwisgo bathodyn yn dynodi eich bod yn gallu siarad Cymraeg, neu ieithoedd eraill, neu'n gallu defnyddio Iaith Arwyddo Prydain		
3	Ymateb i ymholiadau ffôn		
4	Ymateb i ohebiaeth a dechrau gohebiaeth		
5	Cynnal sgysiau wyneb yn wyneb		
6	Mynychu cyfarfodydd yn eich Ardal Wasanaeth eich hun		
	a) cyfarfodydd safle		
	b) cyfarfod cyhoeddus		
	c) cyfarfod un am un e.e. yng nghartref rhywun		
	ch) teithio o un lleoliad i'r llall i ddelio gydag ymholiadau		
7	Mynychu cyfarfodydd mewn Ardaloedd Gwasanaeth eraill		
	a) cyfarfodydd safle		
	b) cyfarfod cyhoeddus		
	c) cyfarfodydd un am un e.e. yng nghartref rhywun		
	ch) teithio o un lleoliad i'r llall i ddelio gydag ymholiadau		
8	Cynnal cyfweiliadau gyda'r cyfryngau:		
	a) radio		
	b) teledu		
9	Mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau gyda sefydliadau a/neu busnesau sy'n bartneriaid		

Eich llofnod:

Llofnod.....**Dyddiad**.....

(Rheolwr Llinell/Pennaeth Gwasanaeth) **Dyddiad**.....

Atodiad (ii) Drafft DS Bydd y ffurflen hon yn cael ei dosbarthu mewn fformat dwyieithog

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent
Holiadur Sgiliau Ieithyddol Staff

Mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent wedi ymrwymo i ddarparu mynediad cyfartal i wasanaethau i'r cyhoedd yn Saesneg a Chymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill i'r rhai sy'n gwneud cais amdanynt. **Os gallwch chi siarad unrhyw iaith heblaw'r Saesneg neu os gallwch ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain (BSL), a fydddech gystal â threulio ychydig funudau yn llenwi'r holiadur hwn fel y gallwn ddarganfod pa sgiliau iaith sydd gan staff y Cyngor.**

Unwaith y byddwn yn gwybod pa sgiliau iaith syn bresennol yn y gweithlu, byddwn yn cysylltu â'r bobl hynny ac yn gofyn a hoffent ddefnyddio'u sgiliau ar ran y Cyngor mewn unrhyw ffordd. Ond peidiwch â phoeni, wrth lenwi'r ffurflen hon dydych chi **ddim** yn ymrwymo i ddefnyddio'r sgiliau hynny os nad ydych yn dymuno gwneud.

ADRAN A

Enw _____

Rhif Tâl _____

Is-adran _____

Adran _____

Lleoliad _____

Rhif ffôn cyswllt _____

ADRAN B
Sgiliau Iaith

B1. Ydych chi'n siarad, darllen neu ysgrifennu unrhyw ieithoedd ar wahân i'r Saesneg?
(dywedwch isod os gwelwch yn dda):-

B2. Beth yw'ch gallu yn yr iaith/ieithoedd hynny? (nodwch eich gallu isod):-

	Ychydig	Cymedrol	Gweddol dda	Rhugl
Deall	<input type="text" value="a1"/>	<input type="text" value="a2"/>	<input type="text" value="a3"/>	<input type="text" value="a4"/>
Siarad	<input type="text" value="b1"/>	<input type="text" value="b2"/>	<input type="text" value="b3"/>	<input type="text" value="b4"/>
Darllen	<input type="text" value="c1"/>	<input type="text" value="c2"/>	<input type="text" value="c3"/>	<input type="text" value="c4"/>
Ysgrifennu	<input type="text" value="d1"/>	<input type="text" value="d2"/>	<input type="text" value="d3"/>	<input type="text" value="d4"/>

B3. Ydych chi'n gallu defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac os felly i be lefel(au)?

Ydw

Nag ydw

Gwnewch restr o gwrs/gyrsiau a lefel(au):-

ADRAN C

Dyletswyddau yn y gweithle

C1. Ydych chi'n gwneud y pethau canlynol yn ystod eich dyletswyddau o ddydd i ddydd :-
(*ticiwch bob un sy'n berthnasol*).

	Byth	Ambell waith	Yn aml	Bob dydd
Siarad ar y ffôn neu wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd	<input type="text" value="a1"/>	<input type="text" value="a2"/>	<input type="text" value="a3"/>	<input type="text" value="a4"/>
Darllen gohebiaeth ac yn y blaen gan aelodau o'r cyhoedd	<input type="text" value="b1"/>	<input type="text" value="b2"/>	<input type="text" value="b3"/>	<input type="text" value="b4"/>
Ysgrifennu gohebiaeth neu ddefnydd arall ar gyfer ei ddefnyddio gan y cyhoedd	<input type="text" value="c1"/>	<input type="text" value="c2"/>	<input type="text" value="c3"/>	<input type="text" value="c4"/>

C2. Os ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r pethau uchod, pa mor aml y byddwch chi'n gwneud defnydd o'ch sgiliau iaith yn y gweithle? (*ticiwch bob un sy'n berthnasol*).

	Byth	Ambell waith	Yn aml	Bob dydd
Siarad	<input type="text" value="a1"/>	<input type="text" value="a2"/>	<input type="text" value="a3"/>	<input type="text" value="a4"/>
Darllen	<input type="text" value="b1"/>	<input type="text" value="b2"/>	<input type="text" value="b3"/>	<input type="text" value="b4"/>
Ysgrifennu	<input type="text" value="c1"/>	<input type="text" value="c2"/>	<input type="text" value="c3"/>	<input type="text" value="c4"/>

ADRAN D

Hyfforddiant iaith

D1. Ydych chi'n dysgu Cymraeg, BSL neu unrhyw iaith ARALL ar hyn o bryd?

Ydw

Nag ydw

(Os YDW, nodwch y cwrs/cyrsiau a lefel(au) isod:-

D2. Os "ARALL" dywedwch pa iaith os gwelwch yn dda: -

.....

D3. Fyddai gennych chi ddiddordeb mewn dysgu neu wella'ch sgiliau Cymraeg neu BSL?

Byddai

Na fyddai

Os "BYDDAI" cysylltwch â Jo Thomas ar 355002 neu Alan Burkitt ar 355108 i gael mwy o wybodaeth

Diolch i chi am lenwi'r ffurflen hon, mae'ch cymorth gyda'r arolwg hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Byddwch gystal â'i dychwelyd i'r cyfeiriad isod: -

Alan Burkitt, Swyddog Cydraddoldeb, Adnoddau Dynol, Y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy, NP23 6XB.

Ffôn: (01495) 355108 Ffacs: (01495) 355787

E-bost: alan.burkitt@blaenau-gwent.gov.uk

Gallwch gael y ffurflen hon mewn fformatau eraill trwy wneud cais.

Atodiad (iii) – Rhestr o Sefydliadau sy'n Bartneriaid

Fforwm Mynediad i Bawb
Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent
Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain (BDA)
Coleg Gwent
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)
Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru (DAW)
Grŵp Deddf
Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen, Mynwy
Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB)
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID)
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd (VALREC)
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)